



# **Adroddiad Cynnydd - Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Ebrill 2024**

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Fynwy**

**Enw'r Swyddog Cyfrifol: Sue Hall, Rheolwr Blynnyddoedd Cynnar**

**Dyddiad y Cwblhawyd: 28ain Ebrill 2024**

## **CYNNWYS**

Diweddariad Cyffredinol	2
Cynnydd a Wnaed yn Erbyn Targedau	3
Cyflenwad Gofal Plant	10
Galw Gofal Plant	11
Crynodeb	12
Cynllun Gweithredu Diwygiedig	14
Manylion Cyswllt	17

## **DIWEDDARIAD CYFFREDINOL**

Y brif flaenoriaeth o fewn gofal plant ar gyfer 2023-24 oedd ehangu Dechrau'n Deg. Yn flaenorol, roedd y rhan fwyaf o ofal plant Dechrau'n Deg yn cael ei ddarparu yn un o'n pedwar lleoliad Dechrau'n Deg a gynhelir gan yr ALL. Nid oedd digon o leoedd yn y lleoliadau a gynhelir hyn i ddarparu ar gyfer yr ehangu ac nid oedd rhai rhieni'n gallu manteisio ar eu hawl i ofal plant am ddim gan nad oedd gofal sesiynol yn cyd-fynd â'u trefniadau gwaith. Er mwyn diwallu anghenion pob teulu ac i gefnogi'r darparwyr gofal plant presennol, cytunwyd i gyflogi lleoliadau nas cynhelir a gwarchodwyr plant i gynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg, cyn belled â'u bod yn gallu bodloni'r gofynion angenrheidiol. Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-24, roedd 28 o leoliadau nas cynhelir a 6 gwarchodwr plant wedi'u cofrestru i gynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg.

Mae'r nifer sy'n manteisio ar Addysg Gynnar a'r Cynnig Gofal Plant yn parhau'n uchel yn Sir Fynwy, ac felly mae'r galw am leoedd gofal plant wedi cynyddu. Er mwyn cwrdd â'r galw hwn, roedd angen datblygu darpariaeth gofal plant ychwanegol.

Mae mwy na hanner ein darparwyr gofal sesiynol a dydd wedi'u cymeradwyo i gynnig Addysg Gynnar. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i wreiddio yn y mwyafrif o'n lleoliadau ac mae prosesau asesu wedi'u haddasu yn seiliedig ar y canllawiau asesu a gyhoeddwyd yn nhymor yr haf. Mae hyfforddiant ar y trefniadau asesu newydd wedi'i ddarparu gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA). Mae chwe arolygiad ar y cyd rhwng Estyn ac AGC o ddarparwyr Addysg Gynnar cymeradwy wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn ariannol hon a chafodd pob lleoliad radd o leiaf yn dda ar gyfer Lles, Addysgu ac Asesu, Dysgu a'r Amgylchedd.

Mae newidiadau i Safonau Gofynnol Cenedlaethol AGC ar gyfer Gofal Plant wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am hyfforddiant statudol, yn enwedig cyrsiau mewn Argyfwng neu Gymorth Cyntaf Pediatrig. Yn ogystal â hyfforddiant statudol, rydym hefyd wedi cynnig ystod o gyrsiau hyfforddi DPP i wella arfer presennol megis Modiwlau ADY, Cyfathrebu Cynnar, Ymlyniad, Arwyddo, Froebel, Gwaith Coed, Dysgu yn yr Awyr Agored, Eich Babi a Chi a'r Gymraeg. At ei gilydd, rydym wedi cynnig 25 o gyrsiau hyfforddi gwahanol ac wedi hwyluso 83 o gyfleoedd hyfforddi.

Nid yw'n ymddangos bod cynaliadwyedd wedi bod yn broblem fawr i leoliadau a dim ond pedwar grant cynaliadwyedd yr ydym wedi'u dyfarnu yn ystod y cyfnod hwn. Serch hynny, mae darparwyr wedi adrodd, os na fydd y cyfraddau ariannu ar gyfer lleoedd Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar a Gofal Plant yn cynyddu'n fuan, byddant yn ei chael yn anodd parhau i fod yn ariannol hyfyw ac efallai y cânt eu gorfodi i ystyried a allant barhau i gynnig lleoedd gofal plant wedi'i ariannu ai peidio.

Dyfarnwyd grantiau cyfalaf bach gwerth cyfanswm o £380,000 i 50 o leoliadau gofal plant yn 2023-24 i'w galluogi i gynnal a chadw eu hadeiladau a gwneud gwelliannau i'w hamgylchedd dysgu.

## CYNNYDD A WNAED YN ERBYN TARGEDAU

Mae'r tabl isod yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn 2023-24 yn erbyn Cynllun Gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a ddiwygiwyd ym mis Ebrill 2023.

Targed	Pam mae'n Ofynnol?	Sut y bydd yn cael ei gyflawni?	Sut y caiff ei Fonitro?	Cynnydd 2023-24	Amserlen
Cofrestru 10 gwarchodwr plant newydd ar draws Sir Fynwy a chefnogi darparwyr presennol i gynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth o leiaf.	<p>Mae trosiant uchel o warchodwyr plant bob amser oherwydd natur fyrhoedlog y swydd, ond roedd hyn hyd yn oed yn fwy o broblem yn ystod y pandemig ac mae cyfanswm nifer y gwarchodwyr plant wedi gostwng yn sylweddol.</p> <p>Gwarchodwyr plant sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol.</p>	<p>Gweithio mewn partneriaeth â PACEY Cymru i ddarparu sesiynau briffio gwarchodwyr plant a chymorth parhaus drwy'r broses gofrestru ac ar ymgyrch i recriwtio mwy o warchodwyr plant.</p> <p>Parhau i gynnig cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant cyn cofrestru a grantiau cychwyn.</p>	<p>Bydd nifer y gwarchodwyr plant sydd newydd gofrestru a gwarchodwyr plant sydd wedi'u dadgofrestru yn cael eu monitro trwy adroddiadau misol AGC.</p> <p>Monitro'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant cyn cofrestru a nifer y grantiau cychwyn i warchodwyr plant a ddyfernir bob tymor.</p>	Dechreuasom y flwyddyn ariannol gyda 35 o warchodwyr plant ac rydym wedi recriwtio pedwar gwarchodwr plant newydd sydd wedi cofrestru'n llwyddiannus ag AGC. Yn anffodus, rydym wedi dadgofrestru dau warchodwr plant yn ystod y flwyddyn hon ac mae pump arall wedi atal eu cofrestriad, gan arwain at ostyngiad yng nghyfanswm nifer y gwarchodwyr plant o 35 i 32. Fodd bynnag, mae tri darpar warchodwr plant arall ar hyn o bryd sydd yn ymgymryd â hyfforddiant cyn-gofrestru gwarchodwyr plant.	Mawrth 2025
Datblygu 3 darparwr gofal dydd llawn neu ofal sesiynol neu ymestyn y ddarpariaeth bresennol i gynnig mwy o leoedd i blant dwy oed.	Mae lleoedd i blant dan bump oed yn brin mewn rhai ardaloedd yn Sir Fynwy ac, er bod sesiynau gwag, nid yw bob amser yn bosibl cynnig lle llawn amser.	Monitro'r nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn gofal dydd llawn a gofal sesiynol trwy fanteisio ar y Cynnig Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar a Gofal Plant, yn	Bydd nifer y lleoliadau'n cael eu monitro trwy adroddiadau misol AGC a bydd y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn cael ei fonitro bob tymor.	Ers mis Ebrill 2023, mae tri darparwr gofal dydd llawn newydd wedi'u cofrestru gydag AGC, sy'n cynnig 109 o leoedd ychwanegol i blant o dan bum mlwydd oed. Mae dau o'r lleoliadau hyn wedi cofrestru gyda Dechrau'n Deg ac yn cynnig lleoedd wedi'u	Medi 2025

	Mae cyflwyno gofal plant am ddim i bob plentyn dwy oed yn debygol o waethygu'r sefyllfa hon.	ogystal â chyfathrebu rheolaidd â darparwyr.  Cynnig cyngor a chefnogaeth ynghyd â chymhellion ariannol i ddatblygu darpariaeth newydd neu gynyddu lleoedd.	Bydd grantiau datblygu yn cael eu monitro trwy adroddiadau chwarterol CSG.	hariannu i blant dwy oed cymwys. Mae llawer o'n lleoliadau presennol hefyd wedi cofrestru i gynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg ac ar hyn o bryd mae gennym 4 lleoliad a gynhelir, 28 lleoliad nas cynhelir a 6 gwarchodwr plant wedi'u cymeradwyo i gynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg ledled Sir Fynwy.	
Datblygu clwb ar ôl ysgol yn ardaloedd Cil-y-coed a'r Fenni neu gynyddu nifer y lleoedd ar ôl ysgol a gynigir mewn lleoliadau presennol.	Yr adborth a dderbyniwyd gan rieni yw bod prinder lleoedd ar ôl ysgol mewn rhai rhannau o Gil-y-coed a'r Fenni, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu tan o leiaf 5.30pm i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.	Bydd Swyddog Datblygu Gofal Plant yn gweithio'n agos gyda Chlybiau Plant Cymru i ddatblygu darpariaeth ychwanegol ar ôl ysgol.  Darperir grantiau datblygu.	Bydd nifer y lleoliadau'n cael eu monitro trwy adroddiadau misol AGC a bydd y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn cael ei fonitro bob tymor.  Bydd grantiau datblygu yn cael eu monitro trwy adroddiadau chwarterol CSG.	Roedd clwb ar ôl ysgol wedi'i gynllunio ar gyfer un o ysgolion cynradd Cil-y-coed ond roedd rhieni'n amharod i dalu'r ffioedd, ac felly ni aeth y clwb yn ei flaen. Mae gan ysgol arall yng Nghil-y-coed ddiddordeb hefyd mewn clwb ar ôl ysgol, ac felly rydym yn ystyried lleoliadau eraill a'r posibilrwydd o un clwb i wasanaethu sawl ysgol.  Mae darpariaeth ar ôl ysgol wedi'i chynllunio ar gyfer yr ysgol 3-19 newydd yn y Fenni pan fydd yn agor ar y safle newydd, ond mae hyn wedi'i ohirio am rai misoedd ac mae'n debyg na fydd yn agor tan Ionawr 2025.	Medi 2024

				Mae lleoliad gofal plant presennol yn ymestyn ei oriau agor i gynnig clwb brecwast.	
Annog a chefnogi clybiau y tu allan i oriau ysgol presennol ac unrhyw leoliadau gofal plant newydd a ddatblygir i gofrestru gydag AGC.	Ni all rhieni a gofalwyr gael mynediad at gyllid i gefnogi cost gofal plant os nad yw lleoliadau wedi cofrestru gydag AGC.  Mewn lleoliadau na sydd wedi cofrestru, mae'n anodd sicrhau bod gofal plant o safon ddigonol.	Swyddog Datblygu Gofal Plant i gefnogi clybiau presennol a lleoliadau newydd i fynd â nhw drwy broses gofrestru AGC.  Hyfforddiant i'w ariannu os mai dyma'r rhwystr sy'n atal lleoliadau rhag cofrestru.	Nifer y lleoliadau cofrestredig i'w monitro trwy adroddiadau misol AGC.  Monitro'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant trwy adroddiadau cynnydd chwarterol y CSG.  Cymwysterau staff i'w monitro'n flynyddol.	Mae clwb ar ôl ysgol yn Nhrefynwy ac un arall yng Ngwndy wedi cofrestru gydag AGC yn ystod tymor yr hydref felly maent bellach yn gallu aros ar agor am fwy na dwy awr y dydd ac mae rhieni'n gallu cael cymorth ariannol i helpu gyda chost gofal plant.	Mawrth 2025
Datblygu 2 glwb gwyliau ychwanegol mewn gwahanol ardaloedd o Sir Fynwy.	Mae angen cynyddu'r ystod o ofal plant sydd ar gael yn ystod gwyliau ysgol i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.	Swyddog Datblygu Gofal Plant yn gweithio'n agos gyda darparwyr presennol i ehangu eu darpariaeth.  Cynnig cymhellion ariannol megis grantiau datblygu a chynaliadwyedd i dalu costau cychwyn a chyfran o gostau rhedeg.	Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel targed ar gyfer y Grant Gofal Plant a Chwarae a'i fonitro trwy adroddiadau cynnydd chwarterol.	Nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud ar y cam hwn hyd yma. Mae'n anodd i ddarparwyr gofal plant gystadlu â chynlluniau chwarae â chymhorthdal sylweddol a darpariaeth am ddim sydd ar gael i deuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol.	Gorffennaf 2024
Cynyddu oriau agor o leiaf 1 darparwr gofal plant presennol ym mhob un o'r 5 ardal i gynnwys oriau annodweddiadol	Mae diffyg gofal plant ar gael i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol fel gweithwyr sifft a'r rhai	Cynnig cymhellion ariannol i annog darparwyr gofal plant presennol i ymestyn eu horiau agor ac i ddarparu	Bydd GGD yn anfon ffurflenni diweddarau at ddarparwyr gofal plant yn flynyddol a bydd y cyflenwad gofal plant yn cael ei ddiweddarau	Mae llawer o'n meithrinfeydd dydd eisoes ar agor o 7am neu 7.30am. Mae meithrinfa undydd yn y Fenni yn cynnig sesiynau rhwng 6.30am a 7pm.	Mawrth 2027

megis cyn 8am, ar ôl 6pm, dros nos ac ar benwythnosau.	sy'n gweithio ar benwythnosau.	gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol.	yn unol â hynny a'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.	Yr unig ofal dros nos neu ar y penwythnos yw trefniadau ad hoc gyda gwarchodwyr plant.	
Sefydlu cylch meithrin yn Nhrefynwy, Cas-gwent a Brynbuga a Rhaglan, fel bod gan bob un o bum ardal Sir Fynwy ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg.	Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy, Cas-gwent na Brynbuga a Rhaglan.  Mae diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg a phellter o'r ddarpariaeth bresennol wedi'i godi gan rieni fel rheswm dros beidio â defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg.	Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin i ddatblygu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol.  Cynnig cymhellion ariannol megis grantiau datblygu a chynaliadwyedd i dalu costau cychwyn a chyfran o gostau rhedeg.	Mae nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac adolygir hwn bob tymor.	Ychydig iawn o gynnydd sydd wedi bod o ran sefydlu cylch meithrin yng Nghas-gwent, Brynbuga neu Rhaglan oherwydd y galw cyfyngedig a diffyg staff cymwys.  Yn anffodus, bu oedi gyda'r gwaith adeiladu arfaethedig ar gyfer yr ysgol eginblanhigyn cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy, felly ni fydd yn bosibl agor Cylch Meithrin Trefynwy ar y safle tan fis Medi 2025.  Rydym wedi ariannu deunydd hyrwyddo ac wedi mynychu digwyddiadau i hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yr ysgol eginblanhigyn newydd yn Nhrefynwy a manteision bod yn ddwyieithog.	Mawrth 2027
Annog darparwyr cyfrwng Cymraeg presennol i ymestyn eu horiau ac ystyried darparu gofal plant yn ystod gwyliau ysgol..	Nid oes digon o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn enwedig gofal dydd llawn a gofal plant yn ystod gwyliau ysgol, i	Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin a'r darparwyr presennol i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.	Mae nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Strategol Addysg Gymraeg (CSGA) ac	Roedd Cylch Meithrin y Fenni yn cynnig darpariaeth gwyliau yn ystod gwyliau'r haf 2023.	Mawrth 2027

	ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.	Darperir grantiau datblygu.	adolygir hwn bob tymor.		
Darparu hyfforddiant a gweithgareddau Cymraeg i alluogi o leiaf 15 darparwr i newid o uniaith Saesneg i Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog..	<p>Mae yna nifer o ddarparwyr sy'n disgrifio eu hunain fel Saesneg yn unig ac nid ydynt yn cynnig unrhyw elfennau dwyieithog.</p> <p>Mae'n ofynnol i ni fynd ati i hybu siarad Cymraeg.</p>	<p>Nodi cwrs Cymraeg addas, talu am gost yr hyfforddiant a hyrwyddo gyda darparwyr gofal plant.</p> <p>Cynhyrchu banc o weithgareddau Cymraeg i bob oed eu rhannu gyda darparwyr.</p>	<p>Bydd rhestrau presenoldeb yn cael eu cadw a bydd dilyniant yn cael ei wneud i asesu'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar leoliadau.</p> <p>Bydd data SASS blynyddol yn cael ei fonitro os yw ar gael i'r Awdurdod Lleol.</p>	<p>Cynhaliwyd hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol yn nhymor yr haf a mynychodd 7 gwarchodwr plant. Rhoddodd y cwrs eiriau ac ymadroddion syml iddynt eu defnyddio gyda phlant yn eu lleoliad gofal plant, yn ogystal â gweithgareddau syml.</p> <p>Mae darparwyr gofal plant wedi cael eu hannog i fanteisio ar gyrsiau Cymraeg a gynigir gan y sefydliadau ambarél.</p> <p>Mae Clwb Cwtsh wedi cael ei hyrwyddo trwy gyfryngau cymdeithasol, sef rhaglen Gymraeg sy'n canolbwyntio ar siarad Cymraeg â phlant ifanc.</p>	Mawrth 2027
Parhau i hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a hysbysebu argaeledd cymorth ariannol i gynorthwyo gyda chost gofal plant (gan gynnwys Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar	<p>Yn ôl yr arolwg rhieni ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid, fforddiadwyedd yw'r prif rwystr i gael mynediad i ofal plant yn Sir Fynwy</p> <p>Mae llawer o gynlluniau ar gael i gefnogi gyda chost gofal plant.</p>	Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn parhau i hyrwyddo gofal plant newydd a phresennol ac argaeledd cymorth ariannol ar gyfer gofal plant trwy ein hadran o wefan CSF ac ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol	Mae'r Swyddog Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynhyrchu adroddiadau misol gan gynnwys manylion gweithgareddau hyrwyddo. Mae defnyddwyr gwefan FIS yn llenwi ffurflenni gwerthuso.	<p>Mae'r FIS wedi defnyddio e-bost a chyfryngau cymdeithasol i hysbysebu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ailfrandio FIS yn Hyb Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant</li> <li>• Cynnig Gofal Plant</li> <li>• Cyllid tuag at gost gofal plant</li> </ul>	Parhaus



<p>a Gofal Plant Di-dreth.</p>			<p>Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y Cynnig Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar a Gofal Plant yn cael eu monitro bob tymor.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddi gweigion a gyrfaoedd mewn gofal plant</li> <li>• Diwrnodau agored gofal plant a lleoedd sydd ar gael</li> <li>• Ceisiadau ysgolion meithrin a chynradd yr ALL</li> <li>• Grwpiau plant bach</li> <li>• Gweithgareddau gwyliau</li> <li>• Cyfleoedd chwarae egniol</li> <li>• Siaradwch â Fi</li> <li>• Manteision bod yn ddwyieithog</li> <li>• Grwpiau babanod Cymraeg i Blant ac amser rhigwm Cymraeg</li> <li>• Digwyddiadau Miri Mynwy</li> <li>• Cwrs Cymraeg i ddechreuwr</li> <li>• Agor ysgol eginblanhigion cyfrwng Cymraeg</li> <li>• Gweithdai rhieni</li> <li>• Sesiynau cyn geni ABUHB, clinigau babanod iach a brechiadau</li> <li>• Cefnogaeth gan gymheiriaid bwydo ar y fronHome Start</li> </ul> <p>Rydym wedi cynhyrchu llyfryn sy'n cynnwys gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i deuluoedd â phlant ifanc. Rydym hefyd wedi</p>	
--------------------------------	--	--	--	--	--

				ariannu baneri ar gyfer 19 o leoliadau gofal plant i'w helpu i hyrwyddo eu darpariaeth.	
--	--	--	--	---	--

## **CYFLENWAD GOFAL PLANT**

Mae'r tabl isod yn dangos y cyflenwad o ddarpariaeth gofal plant yn Sir Fynwy ar ddiwedd mis Mawrth 2024 o'i gymharu â'r hyn oedd ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae'r niferoedd hyn yn cynnwys darpariaeth gofrestredig ac anghofrestredig, gan fod rhai o'n clybiau gofal y tu allan i oriau ysgol yn rhedeg am lai na dwy awr. ac nad ydynt wedi'u cofrestru ag AGC.

<b>Math o Ofal Plant</b>	<b>Gwarchodwyr Plant</b>	<b>Gofal Dydd Llawn</b>	<b>Gofal Sesiynol</b>	<b>Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol</b>	<b>Chwarae Mynediad Agored</b>	<b>Crèche</b>	<b>Nanis</b>	<b>Cyfanswm</b>
Mawrth 2023	35	33	9	20	0	0	4	101
Mawrth 2024	32	36	8	21	0	0	5	102
Gwahaniaeth	-3	+3	-1	+1	0	0	1	+1

Mae cyfanswm nifer y lleoliadau gofal plant (ac eithrio nanis) wedi aros yn gyson ar 97; serch hynny, rydym wedi cynyddu nifer gyffredinol y lleoedd gofal plant, gan ein bod wedi disodli gwarchodwyr plant a darparwyr gofal sesiynol â lleoliadau gofal dydd llawn mwy o faint.

Rydym wedi recriwtio pedwar gwarchodwr plant newydd yn ystod y cyfnod hwn, ond mae dau warchodwr plant wedi canslo eu cofrestriad ac mae pum gwarchodwr plant arall wedi atal eu cofrestriad. O ganlyniad, mae cyfanswm nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig wedi gostwng i'r lefel isaf y bu ers dros 20 mlynedd ac mae'n parhau i fod yn faes sy'n peri pryder, yn enwedig oherwydd natur wledig rhannau o Sir Fynwy.

Mae tri lleoliad gofal dydd llawn newydd wedi'u cofrestru yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan gynnig 109 o leoedd gofal plant ychwanegol. Mae pob un o'r lleoliadau hyn wedi'u lleoli yn y Fenni, sef yr ardal yr oeddem wedi nodi'n flaenorol fel un sydd angen darpariaeth gofal plant ychwanegol. Mae un o'r rhain yn ddarparwr cwbl newydd, mae un arall yn ddarparwr presennol sydd wedi ehangu a chofrestru ail safle ac mae'r trydydd yn gyn warchodwr plant sydd wedi ailgofrestru fel gofal dydd llawn er mwyn cynyddu nifer y plant y gallant eu derbyn. Yn anffodus, mae un darparwr gofal sesiynol wedi cau'n barhaol eleni oherwydd materion staffio a phwyllgorau.

Rydym wedi gweithio gydag ysgol gynradd i ddatblygu clwb ar ôl ysgol ac mae dau o'n clybiau gofal y tu allan i oriau ysgol wedi cofrestru gydag AGC eleni, ac felly maent bellach yn gallu rhedeg am dros ddwy awr a chynnig Gofal Plant Di-dreth neu dderbyn talebau gofal plant i helpu rhieni a gofalwyr gyda chost gofal plant. Mae rhywfaint o ddarpariaeth chwarae mynediad agored ond mae'n ad hoc ac nid yw wedi'i gofrestru gydag AGC.

## **Y GALW AM OFAL PLANT**

Asesir y galw am ofal plant ar sail cyfuniad o ymholiadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y nifer sy'n manteisio ar leoedd ac adborth gan ddarparwyr gofal plant.

Mae mwyafrif yr ymholiadau i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi bod am wybodaeth a chyngor cyffredinol neu'n ymwneud â chyllid sydd ar gael i dalu cost gofal plant. Ers ehangu gofal plant Dechrau'n Deg, bu mewnlifiad o ymholiadau gan rieni sydd eisiau gwybod a ydynt yn gymwys, pryd y caiff ei gyflwyno yn eu hardal a sut y gallant gael gafael ar y cyllid hwn. Anaml y cawn ymholiad gan riant neu ofalwr sy'n cael trafferth dod o hyd i unrhyw ofal plant addas yn eu hardal.

Bu cynnydd cyfartalog o tua 4% yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd addysg gynnar o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Ers cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant, bu gostyngiad yn nifer y plant sy'n cael mynediad i'w haddysg gynnar mewn meithrinfa ysgol. Ar gyfer pob tymor yn 2023-24, aeth mwy na 57% o blant at eu haddysg gynnar gyda darparwr nas cynhelir. Yn ôl ein cofnodion, bu cynnydd sylweddol hefyd yn y nifer a fanteisiodd ar y Cynnig Gofal Plant yn 2023-24.

Mae Dechrau'n Deg wedi ehangu yn ystod 2023-24 ac mae gennym bellach 4 lleoliad a gynhelir, 28 o leoliadau nas cynhelir a 6 gwarchodwr plant sydd wedi cofrestru gyda Dechrau'n Deg i gynnig lleoedd gofal plant wedi'u hariannu. Ein dull o gyflwyno gofal plant a ariennir gan Dechrau'n Deg ar gyfer pob plentyn dwy oed yw annog lleoliadau gofal plant presennol gan gynnwys gwarchodwyr plant i gofrestru gyda Dechrau'n Deg, fel y gall rhieni ddewis ble i gael mynediad i'w lle a ariennir. Mae cynlluniau ar waith i gynnwys darpariaeth gofal plant o fewn yr ysgol 3-19 newydd, ac felly bydd hyn yn rhoi lleoedd ychwanegol i ni yn y Fenni, ond bu oedi gyda'r prosiect hwn ac mae'n debygol na fydd ar gael tan Ebrill 2025.

Bu cynnydd yn y galw am addysg gynnar a darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, ond mae hyn yn parhau i fod yn gymharol isel o gymharu ag awdurdodau lleol cyfagos. Rydym yn agor egin ysgol cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy ym mis Medi 2024 ac mae ceisiadau am leoedd meithrin wedi rhagori ar ddisgwyliadau. Unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, byddwn yn edrych i agor cylch meithrin i ddarparu gofal plant cofleidol i'r rhai sy'n mynychu meithrinfa'r ysgol a gofal plant Dechrau'n Deg i blant dwy oed cymwys. Rydym hefyd yn archwilio opsiynau i ddatblygu cylch meithrin yn ardal Cas-gwent.

Mae'n ymddangos bod nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n cael mynediad i addysg gynnar a gofal plant wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf. Nid oes gennym ddarpariaeth arbenigol yn Sir Fynwy ar gyfer plant Blynnyddoedd Cynnar, ond yn hytrach rydym wedi canolbwyntio ar arfogi pob lleoliad i ddiwallu anghenion plant unigol.

## **CRYNODEB**

O'r 8fed Ebrill 2024, roedd cyfanswm o 90 o ddarparwyr gofal plant wedi'u cofrestru gydag AGC; fodd bynnag, mae rhai o'r meithrinfeydd dydd yn cynnig gofal y tu allan i oriau ysgol yn ogystal â gofal dydd ac mae rhai o'r clybiau y tu allan i oriau ysgol yn cynnig gofal cyn ysgol ac ar ôl ysgol, ac felly caiff y rhain eu cyfrif ddwywaith. Mae 4 clwb ar ôl ysgol hefyd nad ydynt wedi'u cofrestru gydag AGC, sy'n rhoi cyfanswm o 97 o ddarpariaethau gofal plant yn Sir Fynwy a 5 nani cymeradwy. Mae'r ddarpariaeth gofal plant hon wedi'i gwasgaru ledled y sir ac mae'r lleoedd gofal plant wedi'u gwasgaru ar draws gwahanol fathau o ofal plant, er bod mwyafrif y darparwyr gofal dydd llawn.

Er bod digon o leoedd gofal plant blynyddoedd cynnar ar draws Sir Fynwy ar hyn o bryd, rydym yn ymwybodol ei fod yn mynd yn dynn mewn rhai ardaloedd ac mae'n ymddangos bod y galw'n cynyddu. Rydym yn rhagweld y bydd y galw hwn yn cynyddu ymhellach unwaith y bydd gofal plant Dechrau'n Deg wedi'i gyflwyno'n llawn a'i fod ar gael i bob plentyn dwy oed.

Mae gan bron bob ysgol gynradd yn Sir Fynwy fynediad at ofal cyn ysgol, naill ai'n cael ei redeg gan staff yr ysgol ar safle'r ysgol cyn i'r clwb brechwast am ddim ddechrau neu'n cael ei redeg gan ddarparwr preifat mewn lleoliad cyfagos ac mae'r ysgol gynradd olaf i fod i agor. eu clwb brechwast ym mis Ebrill 2024. Mae gan bron i ddwy ran o dair o'r holl ysgolion cynradd hefyd glwb ar ôl ysgol ar y safle neu drefniadau gyda darparwr yn yr ardal i gasglu o'u hysgol. Mae darpariaeth ar ôl ysgol gyfyngedig yn ardal Cil-y-coed ac mae rhieni wedi cysylltu â rhai ysgolion yn yr ardal hon yn gofyn am ofal ar ôl ysgol. Rydym yn gweithio gyda dwy ysgol mewn ymgais i ddatblygu darpariaeth ar ôl ysgol ar y safle, ac rydym hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o sefydlu clwb ar ôl ysgol mewn lleoliad canolog a all wasanaethu sawl ysgol gynradd. Rydym wedi cefnogi dau glwb ar ôl ysgol i gofrestru gydag AGC yn ystod 2023-24 ond mae 4 clwb ar ôl ysgol sydd o hyd heb gofrestru ag AGC ac sy'n gallu rhedeg am lai na dwy awr yn unig. Mae hyn yn broblem i rai teuluoedd sy'n gweithio gan nad yw hyn bob amser yn ddigon hir ac ni allant ddefnyddio talebau gofal plant na gofal plant di-dreth mewn darpariaeth anghofrestredig.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Pacey Cymru i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa ac i gynnig cymorth i warchodwyr plant tra'u bod yn mynd trwy hyfforddiant a'r broses gofrestru. O ganlyniad, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n cofrestru fel gwarchodwr plant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf y ffaith bod pedwar gwarchodwr plant newydd wedi'u recriwtio eleni, mae problemau o hyd o ran cadw gwarchodwyr plant presennol ac mae nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig yn Sir Fynwy mewn gwirionedd wedi gostwng 3 i 32 ac mae ar ei lefel isaf erioed. Mae hwn yn faes sy'n peri pryder, yn enwedig gan mai nhw yw'r unig ddarparwyr gofal plant sy'n gallu cynnig gofal plant hyblyg yn realistig i ddiwallu anghenion gweithwyr sifft neu'r rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol.

Nid ydym wedi gallu gwneud cynnydd mewn perthynas â chynyddu'r cyflenwad o ofal plant cyfrwng Cymraeg cofrestredig yn Sir Fynwy, er bod y nifer sy'n manteisio ar addysg gynnar a gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau presennol wedi cynyddu. Mae llawer o waith i'w wneud eto i gyrraedd y targed yn ein Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg o gael cylch meithrin ym mhob un o'r pum prif ardal yn Sir Fynwy, gan mai dim ond dau gylch meithrin sydd gennym ar hyn o bryd. Nid ydym yn gallu agor cylch meithrin ar safle'r egin ysgol cyfrwng Cymraeg yn

Nhrefynwy pan fydd yn agor ym mis Medi 2024 oherwydd diffyg lle. Unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau, ein bwriad yw sefydlu cylch meithrin a fydd yn agor ym mis Medi 2025, er ein bod yn bryderus y byddwn yn cael trafferth dod o hyd i staff cymwys sy'n siarad Cymraeg i weithio yn y lleoliad. Rydym yn gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin ac Is-grŵp Hyrwyddo Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg i godi proffil addysg cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog.

Mae'r diffyg staff gofal plant cymwysedig yn parhau i fod yn broblem sy'n ein hatal rhag datblygu lleoedd gofal plant ychwanegol. Nid yw rhai lleoliadau'n gweithio i'w capasiti llawn neu ni allant ehangu, gan na allant recriwtio staff â'r cymwysterau priodol er mwyn bodloni'r cymarebau sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â Safonau Gofynnol Cenedlaethol AGC ar gyfer Gofal Plant.

Y prif rwystr sy'n atal teuluoedd rhag cael mynediad at ofal plant o hyd yw cost gofal plant. Os nad yw teulu'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg ac nad yw'r ddau riant yn gweithio, yr unig gymorth ariannol y gallant ei gael yw 10 awr o addysg gynnar yr wythnos yn ystod y tymor yn unig o'r tymor yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd.

Gan ystyried hyn oll, mae'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

- *Cynyddu nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael i blant dwy oed;*
- *Datblygu darpariaeth y tu allan i oriau ysgol yn ardaloedd Cil-y-coed a'r Fenni;*
- *Cefnogi clybiau ar ôl ysgol anghofrestredig presennol a'u hannog i gofrestru gydag AGC;*
- *Parhau i recriwtio a chadw gwarchodwyr plant;*
- *Datblygu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn Nhrefynwy a Chas-gwent;*
- *Parhau i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd a chefnogi darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg i ymestyn eu darpariaeth;*
- *Cynhyrchu deunydd hyrwyddo ar yrfaoedd gofal plant i gynyddu'r gweithlu gofal plant;*
- *Parhau i hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a chynlluniau ariannol i helpu gyda chost gofal plant gan gynnwys y Cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar, Gofal Plant Dechrau'n Deg a Gofal Plant Di-dreth.*

**CYNLLUN GWEITHREDU DIWYGIEDIG**

Targed	Pam mae'n Ofynnol?	Sut y bydd yn cael ei gyflawni?	Sut y caiff ei Fonitro?	Amserlen
Datblygu 3 lleoliad gofal dydd llawn neu ofal sesiynol neu ymestyn y ddarpariaeth bresennol i gynnig mwy o leoedd i blant dwy oed.	Mae lleoedd i blant dan 5 oed yn brin mewn rhai ardaloedd yn Sir Fynwy ac, er bod sesiynau gwag, nid yw bob amser yn bosibl cynnig lle llawn amser. Mae cyflwyno gofal plant am ddim i bob plentyn 2 oed yn debygol o waethygu'r sefyllfa hon.	Monitro'r nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn gofal dydd llawn a gofal sesiynol trwy fanteisio ar y Cynnig Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar a Gofal Plant, yn ogystal â chyfathrebu rheolaidd â darparwyr. Cynnig cyngor a chefnogaeth ynghyd â chymhellion ariannol i ddatblygu darpariaeth newydd neu gynyddu lleoedd.	Bydd nifer y lleoliadau'n cael eu monitro trwy adroddiadau misol AGC a bydd y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn cael ei fonitro bob tymor. Bydd grantiau datblygu yn cael eu monitro trwy adroddiadau chwarterol CSG.	Medi 2025
Datblygu clwb ar ôl ysgol yn ardaloedd Cil-y-coed a'r Fenni neu gynyddu nifer y lleoedd ar ôl ysgol a gynigir mewn lleoliadau presennol.	Yr adborth a dderbyniwyd gan rieni yw bod prinder lleoedd ar ôl ysgol mewn rhai rhannau o Gil-y-coed a'r Fenni, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu tan o leiaf 5.30pm i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio	Bydd Swyddog Datblygu Gofal Plant yn gweithio'n agos gyda Chlybiau Plant Cymru i ddatblygu darpariaeth ychwanegol ar ôl ysgol. Bydd grantiau datblygu yn cael eu cynnig fel cymhelliant.	Bydd nifer y lleoliadau'n cael eu monitro trwy adroddiadau misol AGC a bydd y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn cael ei fonitro bob tymor. Bydd grantiau datblygu yn cael eu monitro trwy adroddiadau chwarterol CSG.	Medi 2025
Annog a chefnogi clybiau y tu allan i oriau ysgol presennol ac unrhyw leoliadau gofal plant newydd a ddatblygir i gofrestru gydag AGC.	Ni all rhieni a gofalwyr gael mynediad at gyllid i gefnogi cost gofal plant os nad yw lleoliadau wedi cofrestru gydag AGC. Mewn lleoliadau anghofrestredig, mae'n anodd sicrhau bod gofal plant o safon ddigonol.	Swyddog Datblygu Gofal Plant i gefnogi clybiau presennol a lleoliadau newydd i fynd â nhw drwy broses gofrestru AGC. Hyfforddiant i'w ariannu os mai dyma'r rhwystr sy'n atal lleoliadau rhag cofrestru. Nifer y lleoliadau cofrestredig i'w monitro trwy adroddiadau misol AGC.	Monitro'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant trwy adroddiadau cynnydd chwarterol y CSG. Cymwysterau staff i'w monitro'n flynyddol.	Medi 2027

<p>Cofrestru 10 gwarchodwr plant newydd ar draws Sir Fynwy a chefnogi darparwyr presennol i gynnal y lefel bresennol o ddarpariaeth o leiaf.</p>	<p>Mae trosiant uchel o warchodwyr plant bob amser oherwydd natur fyrhoedlog y swydd, ond roedd hyn hyd yn oed yn fwy o broblem yn ystod y pandemig ac mae cyfanswm nifer y gwarchodwyr plant wedi gostwng yn sylweddol.</p>	<p>Gwarchodwyr plant sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gofal plant yn ystod oriau annodweddiadol. Gweithio mewn partneriaeth â PACEY Cymru i ddarparu sesiynau briffio gwarchodwyr plant a chymorth parhaus drwy'r broses gofrestru ac ar ymgyrch i recriwtio mwy o warchodwyr plant. Parhau i gynnig cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant cyn cofrestru a grantiau cychwyn.</p>	<p>Bydd nifer y gwarchodwyr plant sydd newydd gofrestru a gwarchodwyr plant sydd wedi'u dadgofrestru yn cael eu monitro trwy adroddiadau misol AGC. Monitro'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant cyn cofrestru trwy gofnodion cymorth PACEY misol a'r nifer uchaf erioed o grantiau cychwyn gwarchodwyr plant a ddyfernir bob tymor.</p>	<p>Mawrth 2027</p>
<p>Sefydlu cylch meithrin yn Nhrefynwy a Chas-gwent fel bod darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ym mhob un o'r pedwar clwstwr.</p>	<p>Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yng nghlystyrau Trefynwy na Chas-gwent. Mae diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg a phellter o'r ddarpariaeth bresennol wedi'i godi gan rieni fel rheswm dros beidio â defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin i ddatblygu darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Cynnig cymhellion ariannol megis grantiau datblygu a chynaliadwyedd i dalu costau cychwyn a chyfran o gostau rhedeg.</p>	<p>Mae nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg ac adolygir hwn bob tymor.</p>	<p>Medi 2026</p>
<p>Ymestyn nifer y lleoedd, oriau agor neu wasanaethau a gynigir gan ein lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg presennol.</p>	<p>Nid oes digon o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn enwedig gofal dydd llawn a gofal plant yn ystod gwyliau ysgol, i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio..</p>	<p>Bydd Blynyddoedd Cynnar Sir Fynwy yn gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin a'r darparwyr presennol i ymestyn darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Bydd grantiau datblygu yn cael eu cynnig fel cymhelliant i</p>	<p>Mae nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (CSCA), a chaiff hwn ei adolygu bob tymor.</p>	<p>Mawrth 2027</p>



		gefnogi lleoliadau i ymestyn eu darpariaeth.		
Darparu hyfforddiant a gweithgareddau Cymraeg i alluogi o leiaf 10 darparwr i newid o uniaith Saesneg i Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog.	Mae yna nifer o ddarparwyr sy'n disgrifio eu hunain fel Saesneg yn unig ac nid ydynt yn cynnig unrhyw elfennau dwyieithog. Mae'n ofynnol i ni fynd ati i hybu siarad Cymraeg.	Nodi cwrs Cymraeg addas, talu am gost yr hyfforddiant a hyrwyddo gyda darparwyr gofal plant. Cynhyrchu banc o weithgareddau Cymraeg i bob oed eu rhannu gyda darparwyr.	Bydd rhestrau presenoldeb yn cael eu cadw a bydd dilyniant yn cael ei wneud i asesu'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar leoliadau.  Defnyddir data SASS blynyddol i fonitro a yw ar gael i'r Awdurdod Lleol.	Mawrth 2027
Mynychu o leiaf 6 digwyddiad i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant gofal plant a gyrfaoedd mewn gofal plant.	Mae diffyg ymarferwyr gofal plant cymwysedig ac mae hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad lleoedd gofal plant ychwanegol, yn ogystal â bygwth hyfywedd y ddarpariaeth gofal plant bresennol. Mae angen inni wneud yr hyn a allwn i annog mwy o bobl i ddilyn hyfforddiant er mwyn cynyddu'r gweithlu gofal plant.	Cynhyrchu Llyfryn Gyrfaoedd mewn Gofal Plant a'i rannu'n eang trwy'r wefan, cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mynychu Ffeiriau Gyrfaoedd a digwyddiadau tebyg i hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal plant. Gweithio gyda'r pedair ysgol uwchradd i sefydlu cymhwyster Gofal Plant Lefel 2 fel rhan o'u cwricwlwm ôl-16.	Bydd nifer y digwyddiadau a fynychir, negeseuon cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw fathau eraill o hyrwyddo yn cael eu cofnodi.  Bydd ymholiadau ynghylch hyfforddiant gofal plant neu gyfleoedd gwaith gofal plant yn cael eu cofnodi.	Parhaus
Parhau i hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a hysbysebu argaeledd cymorth ariannol i gynorthwyo gyda chost gofal plant (gan gynnwys Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant, Addysg Gynnar a Gofal Plant Di-dreth).	Yn ôl yr arolwg rhieni ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid, fforddiadwyedd yw'r prif rwystr i gael mynediad i ofal plant yn Sir Fynwy. Mae llawer o gynlluniau ar gael i gefnogi gyda chost gofal plant.	Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn parhau i hyrwyddo gofal plant newydd a phresennol ac argaeledd cymorth ariannol ar gyfer gofal plant trwy ein hadran o wefan CSF ac ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Bydd Llyfryn Cymorth Ariannol Gofal Plant yn cael ei rannu'n eang.	Mae'r Swyddog Gwybodaeth i Deuluoedd yn cynhyrchu adroddiadau misol gan gynnwys manylion gweithgareddau hyrwyddo. Mae defnyddwyr gwefan FIS yn llenwi ffurflenni gwerthuso. Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y Cynnig Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar a Gofal Plant yn cael eu monitro bob tymor.	Parhaus

## **MANYLION CYSWLLT**

Sue Hall

Rheolwr Blynyddoedd Cynnar

Cyngor Sir Fynwy

Cyfeiriad: Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA

Ffôn: 01633 644461

Ebst: [susanhall@monmouthshire.gov.uk](mailto:susanhall@monmouthshire.gov.uk) neu [childcare@monmouthshire.gov.uk](mailto:childcare@monmouthshire.gov.uk)